



Y RHWYDWAITH
YMCHWIL IECHYD
MEWN YSGOLION

THE SCHOOL
HEALTH RESEARCH
NETWORK

shrn.org.uk

Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion

Adroddiad Holiadur Amgylchedd yr Ysgol 2023 y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion mewn Ysgolion Uwchradd

Mai 2024



Cynnwys

1. Casglu data a samplu	5
Glanhau data	6
2. Canfyddiadau	7
2.1 Cwestiynau cyffredinol am eich ysgol.....	7
2.2 Cynnwys myfyrwyr, rhieni/gofalwyr a'r gymuned mewn iechyd a lles.....	14
2.3 Addysg iechyd a lles.....	19
2.4 Gweithgarwch corfforol a theithio llesol	21
2.5 Bwyta'n iach	25
2.6 Tybaco, cyffuriau ac alcohol.....	30
2.7 Iechyd meddwl a lles.....	33
2.8 Rhyw a pherthnasoedd	36
2.9 Darpariaeth gwasanaeth iechyd	39
2.10 Atodiad 2023: Ymagwedd Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddyliol	47

Datblygwyd y ffigurau yn yr adroddiad hwn gan Ipsos ar ran y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ym Mhrifysgol Caerdydd.

Diolchiadau

Estynnwn ein diolch twymgalon i'r holl ysgolion uwchradd ar draws Cymru a gymerodd ran yn yr adroddiad hwn. Mae eich ymrwymiad a'ch cydweithrediad yn amhrisiadwy wrth wella ein dealltwriaeth o iechyd a lles myfyrwyr. Gyda'n gilydd, rydym yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd ein dysgwyr. Diolch i chi am eich ymroddiad a'ch cefnogaeth.

Hefyd, rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth ein partneriaid yn Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cyflwyniad

Caiff Holiadur Amgylchedd yr Ysgol mewn ysgolion uwchradd ei ateb bob dwy flynedd gan aelod o Dîm Arwain yr Ysgol ochr yn ochr ag Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith, sy'n cael ei ateb gan ddysgwyr.

Mae'r dull cydlynus hwn yn creu set ddata unigryw a chynhwysfawr sy'n caniatáu am archwiliad manwl o'r cysylltiadau rhwng polisiâu ac arferion yr ysgol – fel arweinyddiaeth, ethos yr ysgol, yr amgylchedd, dysgu'r cwricwlwm, ac ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned – a'u heffaith ar ddeilliannau iechyd a lles dysgwyr.

Mae Holiadur Amgylchedd yr Ysgol (yr Holiadur) yn cefnogi amrywiol fentrau allweddol y tu hwnt i asesu iechyd a lles myfyrwyr. Mae'n llywio datblygiad polisi ar lefelau lleol a chenedlaethol, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag anghenion ysgolion a myfyrwyr, yn enwedig wrth hyrwyddo Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Lles Emosiynol a Meddyliol. Yn ogystal, mae'r Holiadur yn adnodd monitro ar gyfer rhaglen Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles (WNHWPS), gan arwain ysgolion wrth iddynt weithredu a gwerthuso'u mentrau iechyd. Mae'n arwain sut caiff adnoddau eu dyrannu trwy amlygu meysydd y mae angen eu gwella, yn meithrin cydweithredu rhwng ysgolion trwy fentrau iechyd lleol ac yn hwyluso hunanwerthuso, gan ganiatáu i ysgolion fyfyrwyr ar eu harferion a rhannu strategaethau arloesol ar draws y rhwydwaith.

Ar y cyfan, mae'r Holiadur yn adnodd cynhwysfawr sy'n gwella arferion ysgolion unigol gan gyfrannu at amcanion iechyd ac addysgol ehangach ar draws Cymru.

I gael mwy o wybodaeth am yr Holiadur, darllenwch [yma](#)

1. Casglu data a samplu

Gweinyddwyd Holiadur Amgylchedd Ysgol SHRN (SEQ) 2023 gan Ipsos, ar ran Prifysgol Caerdydd. Fe'i cwblhawyd ar-lein gan ysgolion sy'n aelodau o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN) yng Nghymru. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 2 Hydref a 22 Rhagfyr 2023. .

Roedd sampl arolwg SEQ yn 2023 yn cynnwys 208 o ysgolion. Roedd tair ysgol, fodd bynnag, yn cynnwys dau safle a oedd yn bell i ffwrdd heb unrhyw bontio o ran myfyrwyr. Gofynnwyd i'r ysgolion hyn gwblhau'r Holiadur Amgylchedd Ysgol ar wahân ar gyfer pob safle, gan ddod â'r cyfanswm yn y sampl i 211. Cymerodd cant naw deg tri (193) o 211 o safleoedd ysgol (gan gynnwys rhai ysgolion annibynnol) ran yn yr arolwg SEQ (91%). Ni wnaeth deunaw o safleoedd ysgol (9%) gwblhau'r arolwg, ac mae 10 ohonynt wedi agor dolen yr arolwg ond heb gwblhau'r holiadur ac ni chafodd 8 fynediad at yr holiadur. Roedd y rhain yn cynrychioli 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru (gweler Tabl 1). Darparwyd y sampl o ysgolion uwchradd gan Brifysgol Caerdydd.

Tabl 1. Crynodeb o aelodaeth Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN) fesul Awdurdod Lleol a chwblhau'r Holiadur Amgylchedd Ysgolion

Awdurdod Lleol	Aelodaeth Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion Pob Oed)	
	Holiadur wedi ei gwblhau yn llawn	Holiadur heb ei gwblhau
Abertawe	13	0
Blaenau Gwent	4	0
Bro Morgannwg	8	0
Caerdydd	13	4
Caerffili	11	1
Casnewydd	9	0
Castell-nedd Port Talbot	9	0
Ceredigion	7	0
Conwy	7	0
Gwynedd	15	0
Merthyr Tudful	4	0
Pen-y-Bont ar Ogwr	9	1
Powys	11	2
Rhondda Cynon Taf	15	2
Sir Ddinbych	8	0
Sir Fynwy	4	1
Sir Gâr / Sir Gaerfyrddin	12	2
Sir Penfro / Sir Benfro	7	1

Sir y Fflint	10	1
Torfaen	5	1
Wrecsam	7	2
Ynys Môn	5	0
Cyfanswm	193	18

Yn y don hon o'r astudiaeth ni chafodd ymatebion gan ysgolion nad ydynt wedi cwblhau'r arolwg yn llawn eu cadw. Rhoddir y sylfaen ar gyfer cwestiynau wedi'u siartio o dan bob siart. Ar gyfer cwestiynau nad ydynt wedi'u siartio, darperir y sylfaen mewn tabl sy'n dilyn y canfyddiadau cryno ym mhob adran. Mae safleoedd ysgolion yn cael eu cyfrif ar wahân yn y sylfaen. Ar gyfer siartiau sy'n dangos Blynnyddoedd 12 a 13, cafodd pob ysgol heb chweched dosbarth eu heithrio o'r sylfaen perthnasol ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn. Nid oedd gan wyth deg o safleoedd ysgol a gymerodd ran chweched dosbarth.

Mae canrannau yn y testun ac yn y siartiau yn cael eu talgrynnu i'r cyfanrif agosaf. Lle nad yw canrannau cyfun yn y testun neu'r siartiau yn cyfateb yn union i swm eu rhannau, gall hyn fod oherwydd talgrynnu. Mewn rhai siartiau, efallai na fydd ffigurau canrannol isel yn cael eu labelu er eglurder.

Mae'r ysgolion a gynhelir yn y sampl yn gynrychioliadol o holl ysgolion Cymru o ran maint a lefel yr hawl i brydau ysgol am ddim, gyda gwahaniaethau bach iawn rhwng yr ysgolion a gwblhaodd yr holiadur a'r rhai na wnaeth (gweler Tabl 2).

Glanhau data

Roedd angen peth glanhau data lle nad oedd ysgolion wedi darparu data dilys neu pan roddwyd atebion nad oeddent yn cael eu hystyried yn gredadwy. Mewn achosion o'r fath, cafodd y data eu hailgodio fel rhai "ar goll".

Tabl 2 Hawl i gael prydau ysgol am ddim a maint yr ysgol (data CYBLD 2023) mewn ysgolion a gynhelir sy'n cwblhau Holiadur Amgylchedd Ysgol SHRN (SEQ) a'r rhai na wnaeth

	Cyfranogwyr yr arolwg (n = 193)	Rhai nad ydynt yn cyfranogi (n = 18)
Hawl i gael prydau ysgol am ddim (%)	19.55 (± 9.91)	19.43 (±13.24)
Cofrestr myfyrwyr	940.63 (±376.40)	976.25 (± 308.30)

2. Canfyddiadau

2.1 Cwestiynau cyffredinol am eich ysgol


Casgliadau cryno

- Y **flaenoriaeth** a ddewiswyd amlaf gan **yr uwch dîm rheoli/arwain** oedd iechyd meddwl ac emosiynol myfyrwyr (85%). Roedd iechyd a lles staff (65%) a chyrhaeddiad addysgol myfyrwyr (60%) hefyd yn flaenoriaethau a ddewiswyd yn aml (gweler Ffigur 1).
- Mewn pedair rhan o bump (80%) o'r ysgolion ag **un arweinydd strategol** ar gyfer iechyd a lles, roedd yr arweinydd yn uwch reolwr h.y. naill ai dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol (gweler Ffigur 2). Am dros hanner (55%) o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, roedd yr arweinydd strategol ar gyfer iechyd a lles yn bennaeth cynorthwyol.
- O'r ysgolion a gymerodd ran yn Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles (WNHWPS), roedd y mwyafrif wedi derbyn cyngor neu arweiniad gan gynllun WNHWPS (70%), wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau rhwydwaith neu gyfarfodydd clwstr a hwyluswyd gan eu tîm Ysgolion Iach Lleol (69%) neu wedi cymryd rhan mewn mentrau iechyd a lles lleol neu genedlaethol i gefnogi eu blaenoriaethau iechyd a lles (66%) (gweler Ffigur 3).
- Roedd mwyafrif (78%) o ysgolion yn meddwl bod eu **haelodaeth o gynllun WNHWPS lleol** yn bwysig (gweler Ffigur 4).
- Roedd gan dros hanner yr ysgolion gynllun gweithredu ysgrifenedig neu dargedau wedi'u cynnwys yn eu Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd (56%) ac ymgysylltu â'r gymuned (53%) (gweler ffigur 5).
- Dywedodd pob ysgol eu bod yn defnyddio o leiaf un **ffynhonnell o ddata iechyd a lles i ddiweddarau eu polisïau a'u harferion ar greu ysgol iach**. Y ddwy ffynhonnell ddata y soniwyd amdanynt amlaf a ddefnyddiwyd oedd arolygon myfyrwyr yr ysgol ei hun (88%) ac Adroddiad Iechyd a Lles Myfyrwyr Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (88%) (gweler Ffigur 6).
- **Defnyddiwyd data iechyd a lles gan** grwpiau amrywiol o fewn yr ysgol, yn bennaf gan yr uwch dîm rheoli/arwain (96%) a'r timau lles a gofal bugeiliol (94%), ac roedd tua chwech o bob deg yn rhannu data gyda chyngor yr ysgol neu grwpiau llais myfyrwyr eraill (61%), eu llywodraethwyr ysgol (58%) neu eu cydlynnydd ysgol iach WNHWPS (57%) (gweler Ffigur 7).
- Roedd dros naw o bob deg ysgol (95%) **yn defnyddio data i** nodi angen a gosod blaenoriaethau iechyd a lles. Roedd dros wyth o bob deg (83%) defnyddio data i gefnogi gwella ysgolion tra bod ychydig o dan wyth o bob deg (76%) yn defnyddio data i fesur effaith eu gwaith ar greu ysgol iach (gweler Ffigur 8).

- Roedd y defnydd o **arferion adferol yn ymagweddau ysgolion at ddisgyblaeth myfyrwyr** yn gyffredin. Mae mwy na naw o bob deg (94%) defnyddio cynhadledd adferol fel agwedd at ddisgyblaeth myfyrwyr (gweler Ffigur 9).

Cwestiwn (heb ei siartio)	Sylfaen (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu ymatebion heb eu datgan)
C2 A oes gan eich ysgol un arweinydd strategol ar gyfer iechyd a lles myfyrwyr?	Ymateb pob ysgol (182)
C3 A oes gan eich ysgol un arweinydd o arweinwyr lluosog ar gyfer y canlynol?	Ymateb pob ysgol (189)
C4 A yw eich ysgol yn aelod o'i gynllun ysgolion iach lleol fel rhan o WNHWPS?	Ymateb pob ysgol (150)
C7 A oes gan eich ysgol gynllun gweithredu iechyd a lles ysgrifenedig neu dargedau iechyd a lles ysgol?	Ymateb pob ysgol (178)
C8 A yw eich cynllun gweithredu neu dargedau wedi'u cynnwys yn eich Cynllun Datblygu Ysgol cyfredol?	Pob ysgol sydd â chynllun gweithredu/targedau iechyd a lles ysgrifenedig ar gyfer yr ysgol (142)
C9 A yw'r Uwch Reolwyr / Tîm Arwain yn asesu cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu neu'r targedau yn ffurfiol?	Pob ysgol sydd â chynllun gweithredu/targedau iechyd a lles ysgrifenedig ar gyfer yr ysgol (143)
C14 A yw eich ysgol yn defnyddio arwahanu i reoli ymddygiad myfyrwyr?	Ymateb pob ysgol (193)
C16 Pa arferion adferol eraill ydych chi'n eu defnyddio?	Ymateb pob ysgol a ddefnyddiodd arferion adferol eraill (31)


Ffig. 1 Blaenoriaethau'r uwch dîm rheoli/arwain



C1 Ym mha rai o'r meysydd canlynol y gwnaeth yr uwch dîm rheoli/arwain ganolbwyntio eu hymdrechion i wneud gwelliannau?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (186). Gellid dewis uchafswm o bedwar opsiwn.


Ffig. 2 Rôl broffesiynol arweinwyr iechyd a lles ysgolion



C2A. Beth yw rôl broffesiynol yr arweinydd iechyd a lles myfyrwyr?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol ag un arweinydd strategol ar gyfer iechyd a lles myfyrwyr, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (156).


Ffig. 3: Gweithgareddau Cynllun WNHWPS sydd wedi digwydd yn y ddwy flynedd diwethaf



C5 Pa rai o weithgareddau canlynol Cynllun WNHWPS sydd wedi digwydd yn ystod y ddwy flwyddyn ysgol ddiwethaf?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol sy'n aelod o'u cynllun ysgolion iach lleol fel rhan o Gynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru (WNHWPS), ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (132).


Ffig. 4 Pwysigrwydd aelodaeth Cynllun WNHWPS i waith iechyd a lles



C6 Pa mor bwysig yw eich aelodaeth o'ch Cynllun WNHWPS lleol i waith iechyd a lles eich ysgol?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol sy'n aelod o WNHWPS, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (129).


Ffig. 5 Cynllun gweithredu neu dargedau ysgrifenedig wedi'u cynnwys yn eich Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) cyfredol



C10 A oes gan eich ysgol gynllun gweithredu ysgrifenedig neu dargedau wedi'u cynnwys yn eich Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) cyfredol ar gyfer y canlynol?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu ymatebion heb eu datgan (174).


Ffig. 6 Ffynonellau data a ddefnyddir i ddiweddarau polisiau ac arferion iechyd ysgolion



C11 Pa un o'r ffynonellau data iechyd a lles canlynol y mae eich ysgol yn eu defnyddio i ddiweddarau ei pholisiau a'i harferion ar greu ysgol iach?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu ymatebion heb eu datgan (193).


Ffig. 7 Defnyddwyr data iechyd a lles



C12 Pwy sy'n defnyddio'r data iechyd a lles?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol sy'n defnyddio data i ddiweddarau polisiau ac arferion ar greu ysgol iach, heb gynnwys 'Ddim yn gwybod' (189).


Ffig. 8 Defnydd ysgolion o ddata i greu ysgol iach



C13 Sut ydych chi'n defnyddio'r data iechyd a lles?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol sy'n defnyddio data i ddiweddarau polisiau ac arferion ar greu ysgol iach, heb gynnwys 'Ddim yn gwybod' (189).

Ffig. 9 Y defnydd o arferion adferol yn ymagweddau ysgolion at ddisgyblaeth myfyrwyr



C15 Pa mor aml mae eich ysgol yn defnyddio'r arferion adferol canlynol yn eich ymagwedd at ddisgyblaeth myfyrwyr?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod': Amser cylch (186), Cynhadledd adferol (189), Cyfryngu gan gyfoedion (185), Arferion adferol eraill (170)


2.2 Cynnwys myfyrwyr, rhieni/gofalwyr a'r gymuned mewn iechyd a lles

Casgliadau cryno

- Dywedodd tri chwarter yr ysgolion (76%) fod **myfyrwyr yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch iechyd a lles trwy nodi meysydd blaenoriaeth**. Dywedodd ychydig llai na dwy ran o dair o ysgolion fod myfyrwyr yn ymwneud â datblygu a chyflawni camau gweithredu / mentrau (65%) (gweler Ffigur 10).
- **Roedd grwpiau llais myfyrwyr yn gweithio ar bynciau lles meddwl gan amlaf** (78%). Roedd bwyd a maeth (76%), bwlio (75%) a gweithgaredd corfforol (51%) hefyd yn bynciau a drafodwyd yn gyffredin (gweler Ffigur 11).
- Nid oedd bron i bedair o bob deg ysgol (37%) yn cynnwys rhieni a gofalwyr mewn penderfyniadau gwella iechyd a lles. O'r ysgolion hynny a **oedd yn cynnwys rhieni a gofalwyr mewn penderfyniadau gwella iechyd a lles**, gwnaeth y mwyafrif hynny drwy arolygon (86%), drwy rieni lywodraethwyr (76%) a thrwy nosweithiau gwybodaeth (70%) (gweler Ffigur 12).
- Roedd bron pob ysgol a oedd **yn gwneud eu cyfleusterau ar gael** ar gyfer grwpiau yn y gymuned leol yn codi tâl ar rai grwpiau neu ar bob grŵp am eu defnyddio (90%) (gweler Ffigur 13).
- **Gweithiodd y rhan fwyaf o ysgolion gydag o leiaf un partner lleol neu genedlaethol i wella iechyd a lles myfyrwyr**. Partneriaethau gyda'r heddlu/PCSOs (90%), gweithwyr ieuentid (83%), gweithwyr iechyd proffesiynol (80%) a swyddogion datblygu chwaraeon (76%) oedd y rhai mwyaf cyffredin (gweler Ffigur 14).

Cwestiwn (heb ei siartio)	Sylfaen (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu ymatebion heb eu datgan)
C18 Sawl gwaith y flwyddyn mae eich Cyngor Ysgol neu gorff tebyg a arweinir gan fyfyrwyr yn cyfarfod?	Ymateb pob ysgol (190)
C20 Ym mha feysydd y mae rhieni / gofalwyr yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch gwella iechyd a lles yn eich ysgol?	Ymateb pob ysgol (193)
C22 Pa un o'r canlynol y mae eich ysgol wedi'i wneud i gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth staff o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)?	Ymateb pob ysgol (193)
C23 I ba raddau y mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wedi llywio ymagwedd eich ysgol at y canlynol?	Ymateb pob ysgol (179)
C24 Pa rai o gyfleusterau eich ysgol sydd ar gael i grwpiau yn y gymuned leol eu defnyddio a phryd?	Ymateb pob ysgol gyda chyfleuster (193)
C25A Pam fod grwpiau cymunedol lleol yn gorfod talu am ddefnyddio cyfleusterau eich ysgol?	Pob ysgol sy'n codi tâl ar grwpiau cymunedol lleol i ddefnyddio cyfleusterau ysgol (138)


Ffig. 10 Cynnwys myfyrwyr mewn penderfyniadau ynghylch gwella iechyd a lles



C17 Ym mha feysydd y mae myfyrwyr yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch gwella iechyd a lles yn eich ysgol?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (188).


Ffig. 11 Pynciau iechyd a lles y mae grwpiau llais myfyrwyr wedi gweithio arnynt yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf



C19 Pa bynciau iechyd a lles y mae eich grwpiau llais myfyrwyr wedi gweithio arnynt yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (193).


Ffig. 12 Ffyrdd y mae ysgolion yn cynnwys rhieni / gofalwyr mewn penderfyniadau gwella iechyd a lles



C21 Ym mha ffyrdd y mae rhieni / gofalwyr yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau gwella iechyd a lles?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol sy'n cynnwys rhieni / gofalwyr mewn penderfyniadau ynghylch gwella iechyd a lles, heb gynnwys ymatebion 'Ddim yn gwybod' neu heb eu datgan (97).


Ffig. 13 Cyfran yr ysgolion sy'n codi tâl ar grwpiau cymunedol i ddefnyddio eu cyfleusterau



C25 A yw grwpiau cymunedol lleol yn gorfod talu am ddefnyddio cyfleusterau eich ysgol?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol sydd â chyfleusterau a ddefnyddir gan grwpiau cymunedol lleol, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' (154).

Ffig. 14 Partneriaethau i wella iechyd a lles myfyrwyr



C26 A oes gan eich ysgol bartneriaethau* ag unrhyw un o'r unigolion neu'r grwpiau canlynol i helpu i wella iechyd a lles myfyrwyr?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (193).

* Partneriaethau yw unrhyw berthnasoedd ffurfiol neu anffurfiol sy'n bodoli am gyfnod o amser neu'n barhaus ac sydd, yn achos awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn mynd y tu hwnt i ofynion statudol.


2.3 Addysg iechyd a lles

Casgliadau cryno

- Mewn pedair o bob deg ysgol (45%), aelod o'r uwch dîm rheoli/arwain oedd **yn gyfrifol am gydgyssylltu gwersi addysg perthnasoedd a rhywioldeb (RSE)**, gyda 34% o ysgolion yn rhoi cyfrifoldeb i bennaeth cynorthwyol (gweler Ffigur 15).
- Roedd dros hanner yr ysgolion (52%) defnyddio asiantaethau allanol i helpu **i gyfrannu at gyflwyno addysg perthnasoedd a rhywioldeb**. Roedd athrawon dosbarth (48%) a thiwtoriaid dosbarth (46%) hefyd wedi cyfrannu at addysgu addysg perthnasoedd a rhywioldeb mewn bron i hanner yr holl ysgolion yn yr arolwg (gweler Ffigur 16).

Cwestiwn (heb ei siartio)	Sylfaen (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu ymatebion heb eu datgan)
C29 Ar gyfer pob grŵp blwyddyn, nodwch a ydych yn addysgu'r canlynol	Ymateb pob ysgol (193)


Ffig. 15 Cyfrifoldeb am gydlynu addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb (RSE) yn yr ysgol



C27 Pwy sy'n gyfrifol am gydlynu addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb (RSE) yn yr ysgol?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (190).

Ffig. 16 Grwpiau sy'n cyfrannu at addysgu addysg perthnasoedd a rhywioldeb



C28 Pwy sy'n cyfrannu at addysgu addysg perthnasoedd a rhywioldeb (RSE)?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (193).


2.4 Gweithgarwch corfforol a theithio llesol

Casgliadau cryno

- Gall dros hanner holl fyfyrwyr Blwyddyn 7 (52%) **gymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu weithgarwch corfforol strwythuredig** 3-4 diwrnod yr wythnos yn nhymor yr haf (gweler Ffigur 16). Tra gall cyfran debyg gymryd rhan am 3-4 diwrnod yr wythnos yn nhymor yr Hydref (49%). Gall myfyrwyr Blwyddyn 10 gymryd rhan am 3-4 diwrnod yr wythnos mewn llai o ysgolion: 47% ar gyfer tymor yr Haf a 46% ar gyfer tymor yr Hydref (gweler Ffigur 17).
- Nid yw'n syndod bod bron pob ysgol yn defnyddio athrawon Addysg Gorfforol i gyflwyno chwaraeon allgyrsiol neu weithgarwch corfforol (99%). Roedd cyfran yr ysgolion **a ddefnyddiodd Lysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru i gyflwyno chwaraeon allgyrsiol neu weithgarwch corfforol** yn 28%. Athrawon eraill neu staff ysgol arall oedd y grŵp a ddefnyddiwyd amlaf gan ysgolion i gyflwyno chwaraeon allgyrsiol (82%) ar ôl athrawon Addysg Gorfforol (gweler Ffigur 18).
- Roedd campfa / neuadd chwaraeon, cae chwaraeon neu gwrth pêl-fasged/pêl-rwyd **ar gael i fyfyrwyr naill ai amser cinio** a/neu ar ôl ysgol mewn tua chwech i wyth o bob deg ysgol (60-80%) Roedd dros hanner yr ysgolion yn sicrhau bod offer chwaraeon ar gael i fyfyrwyr amser cinio (52%) ac ar ôl ysgol (51%) (gweler Ffigur 19).
- Roedd gan chwech o bob deg ysgol (61%) **yng nghynllun Lysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru**, a bron i draean (32%) o ysgolion bump neu fwy o lysgenhadon (gweler Ffigur 20).
- Y dull a ddefnyddiwyd amlaf **i hyrwyddo cludiant llesol** oedd darparu storfa dan do diogel ar gyfer beiciau a sgwteri (65% o ysgolion), gydag ychydig dros hanner yr ysgolion yn cydweithio â'r heddlu neu PCSOs i fynd i'r afael â diogelwch cymunedol neu gludiant. (53%) a mwy na phedwar o bob deg yn hyrwyddo llwybrau cerdded a beicio diogel (43%). Dim ond 12% o ysgolion oedd yn cynnig hyfforddiant hyfedredd beicio (gweler Ffigur 21).

Cwestiwn (heb ei siartio)	Sylfaen (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu ymatebion heb eu datgan)
C35 A yw eich ysgol yn: (1) Monitro nifer y myfyrwyr sy'n cerdded neu'n beicio i'r ysgol; (2) Gosod nodau i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cerdded neu'n beicio i'r ysgol	Ymateb pob ysgol: Monitro myfyrwyr (177); Gosod nodau (173), Dysgu yn yr awyr agored (183)


Ffig. 17 Nifer y dyddiau yr wythnos y gall myfyrwyr ym Mlynnyddoedd 7 a 10 gymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu weithgaredd corfforol strwythuredig



C30 Ar gyfartaledd, sawl diwrnod yr wythnos y gall myfyrwyr ym mlynnyddoedd 7 a 10 gymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu weithgarwch corfforol strwythuredig arall (dan arweiniad staff, gwirfoddolwyr, myfyrwyr eraill) yn nhymor yr hydref a'r haf, e.e. clwb pêl-droed, clwb dawns?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (191).


Ffig. 18 Grwpiau sy'n cyflwyno chwaraeon allgyrsiol mewn ysgolion



C31 Pwy sy'n cyflwyno chwaraeon allgyrsiol a gweithgarwch corfforol yn eich ysgol?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol sydd yn cyflwyno chwaraeon allgyrsiol a gweithgaredd corfforol, heb gynnwys ymatebion 'Ddim yn gwybod' (193).

Ffig. 19 Mynediad myfyrwyr at adnoddau gweithgaredd corfforol y tu allan i amser gwersi




C32 A yw'r canlynol ar gael i fyfyrwyr ar y safle (gyda neu heb oruchwyliaeth)?

*Yn dynodi canrannau is na 0.5%

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod': Campfa/neuadd chwaraeon(192), Caeau chwaraeon/lleiniau gwair (192) ac Offer ar gyfer chwaraeon tîm (190), pwll nofio (190), Stiwdio dawns/ffitrwydd (190), Cyrtiau pêl-fasged/pêl-rwyd (191) a Maes Chwarae (191), Trac rhedeg (189), caeau pêl-droed 5 bob ochr (190) ac ardal Sgrialu (187).


Ffig. 20 Canran yr ysgolion sydd â Llysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru



C33 Faint o Lysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru sydd gan eich ysgol chi ar hyn o bryd?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (150).

Ffig. 21 Strategaethau i hyrwyddo teithio llesol



C34 A yw eich ysgol yn hyrwyddo teithio llesol yn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (193).


2.5 Bwyta'n iach

Casgliadau cryno

- Y strategaeth a ddefnyddiwyd amlaf **i hybu bwyta'n iach** oedd defnyddio system heb arian i gefnogi'r nifer sy'n cael prydau ysgol am ddim (93% o ysgolion). Roedd defnyddio cymhellion pris ar gyfer opsiynau iachach yn isel (14% o ysgolion). Roedd gan bron i hanner (46%) ysgolion nodau ar waith i gynyddu'r nifer sy'n cael prydau ysgol am ddim (gweler Ffigur 22).
- Cynigiwyd **rhaglenni allgyrsiol ar gyfer dysgu am fwyd a bwyta'n iach** mewn 75% o ysgolion i gyd, gyda 27% yn gyffredinol yn cael eu cynnig yn rheolaidd a 48% fel digwyddiadau ad hoc neu untro.
- Roedd **bron i hanner** (49%) o ysgolion yn cynnig clwb brecwast trwy gydol y flwyddyn i bob myfyriwr. Roedd 26% pellach o ysgolion yn cynnig clwb brecwast i rai myfyrwyr a/neu ar rai adegau o'r flwyddyn.
- Roedd **taliad myfyriwr am frechwast** yn rhad ac am ddim i bob myfyriwr mewn un rhan o bump (21%) o ysgolion gyda chlybiau, tra bod bron i draean (30%) yn darparu brecwast am ddim i rai myfyrwyr yn seiliedig ar angen (gweler Ffigur 23).
- Roedd y mwyafrif cryf o ysgolion (97%) yn cael **o leiaf 30 munud ar gyfer eu hamser cinio**, gyda chwech y cant yn gyffredinol yn cael awr neu fwy (gweler Ffigur 24).
- Ychydig yn llai nag un o bob deg ysgol oedd yn caniatáu myfyrwyr Blwyddyn 7, 8, 9 (8% ar gyfer pob blwyddyn) neu flwyddyn 10 (9%) **oddi ar y safle amser cinio**, ond gyda chaniatâd rhieni yn unig. Tra bod 18% o ysgolion yn gwneud hyn ar gyfer Blwyddyn 11, gyda (14%) a heb ganiatâd rhieni (4%) (gweler Ffigur 25).
- Roedd gan tua hanner yr ysgolion (48%) **bolisi bwyta'n iach neu bolisi Bwyd a Ffitrwydd**. Roedd gan chwarter pellach (24%) o ysgolion bolisi yn cael ei ddatblygu.
- O'r ysgolion oedd â pholisïau bwyta'n iach neu fwyd a ffitrwydd, y digwyddiad lleiaf tebygol o gael ei gynnwys yn y polisi hwn oedd **y mathau o fwyd a diod y gellid eu cynnig mewn digwyddiadau cymdeithasol ysgol i rieni/gofalwyr** (36%) **neu mewn prosiectau menter myfyrwyr** (36%) (gweler Ffigur 26).
- Ymhlith ysgolion gyda pholisïau bwyta'n iach neu fwyd a ffitrwydd, roedd gan dros hanner (56%) bolisi a oedd yn cynnwys canllawiau ar **y mathau o fwyd a diodydd y gall myfyrwyr ddod â nhw i'r ysgol**, tra 10% gyda pholisi yn cynnwys gofynion ar bethau o'r fath.

Cwestiwn (heb ei siartio)	Sylfaen (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu ymatebion heb eu datgan)
C37 A yw eich ysgol neu unrhyw sefydliad arall yn darparu unrhyw raglenni allgyrsiol ar gyfer dysgu am fwyd a bwyta'n iach, e.e. clybiau coginio?	Ymateb pob ysgol (190)
C38 A yw eich ysgol yn cynnig clwb brechwast cyn dechrau sesiwn ysgol y bore?	Ymateb pob ysgol (190)
C39 Sawl diwrnod yr wythnos mae'r clwb brechwast yn cael ei gynnal?	Pob ysgol sy'n cynnig clwb brechwast (143)
C43 A oes gan eich ysgol bolisi bwyta'n iach neu bolisi bwyd a ffitrwydd?	Ymateb pob ysgol (176)
C45 A yw polisi bwyta'n iach neu bolisi bwyd a ffitrwydd eich ysgol yn cynnwys canllawiau neu ofynion ar y mathau o fwydydd a diodydd y gall myfyrwyr ddod â nhw i'r ysgol, e.e. mewn pecynnau bwyd?	Pob ysgol sydd â pholisi bwyta'n iach neu bolisi bwyd a ffitrwydd (61)


Ffig. 22 Strategaethau i hybu bwyta'n iach



C36 A yw eich ysgol yn gwneud unrhyw un o'r canlynol i hybu bwyta'n iach?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'ddim yn berthnasol' (193).


Ffig. 23 Taliad myfyriwr am glwb brecwast



C40 A yw myfyriwr yn talu am eu brecwast yn y clwb?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol sy'n cynnig clwb brecwast, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (140).


Ffig. 24 Hyd amser cinio



C41 Pa mor hir sydd gan fyfyrwyr ar gyfer eu hamser cinio yn eich ysgol?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (190).


Ffig. 25 Caniatâd i adael yr ysgol fesul grŵp blwyddyn mewn ysgolion sy'n caniatáu unrhyw grŵp blwyddyn oddi ar y safle



C42 A ganiateir i ddisgyblion blynyddoedd 7 i 11 adael yr ysgol yn ystod eu hamser cinio?

Sylfaen: Pob ymatebydd ysgol sy'n caniatáu o leiaf un grŵp blwyddyn oddi ar y safle, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod': Blwyddyn 7 (191), Blwyddyn 8 (191), Blwyddyn 9 (191), Blwyddyn 10 (190), Blwyddyn 11 (190).

Ffig. 26 Cynhwysiant mewn polisi bwyta'n iach neu bolisi Bwyd a Ffitrwydd o fathau o fwydydd a diodydd y gellir eu cynnig neu eu gwerthu mewn gwahanol gyd-destunau



C44 A yw polisi bwyta'n iach neu bolisi Bwyd a Ffitrwydd eich ysgol yn cynnwys y mathau o fwydydd a diodydd y gellir eu cynnig neu eu gwerthu yn y canlynol?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol sydd â pholisi bwyta'n iach neu bolisi Bwyd a Ffitrwydd, heb gynnwys ymatebion 'Ddim yn gwybod'. Prosiectau menter myfyrwyr (74), Digwyddiadau cymdeithasol ysgol i rieni / gofawyr (73), Digwyddiadau cymdeithasol ysgol i fyfyrwyr (74), Digwyddiadau codi arian gan fyfyrwyr neu'r ysgol (74).


2.6 Tybaco, cyffuriau ac alcohol

Casgliadau cryno

- Roedd tri chwarter yr ysgolion (75%) **yn dysgu myfyrwyr am dybaco anghyfreithlon**. Roedd naw o bob deg ysgol (99%) hefyd yn dysgu myfyrwyr am e-sigaréts/fêps.
- Cynigiwyd **cymorth rhoi'r gorau i dybaco** i fyfyrwyr mewn tri chwarter (76%) o ysgolion. Roedd mwy na hanner yr ysgolion (58%) yn cynnig cymorth o'r fath trwy atgyfeirio i wasanaeth neu fenter oddi ar y safle, tra bod bron chwarter (22%) yn cynnig cefnogaeth yn yr ysgol. Doedd ychydig dros chwarter yr ysgolion (24%) ddim yn cynnig unrhyw wasanaethau cymorth rhoi'r gorau i dybaco.
- Roedd gan bron bob ysgol **lwybrau penodol neu brosesau atgyfeirio ar waith i ddarparu arbenigedd ac adnoddau i fyfyrwyr sy'n camddefnyddio cyffuriau (98%) ac alcohol (96%)**.
- Roedd gan y rhan fwyaf o ysgolion (97%) **bolisi a oedd yn cynnwys gwahardd ysmegu a defnyddio tybaco**, yn gwahardd tybaco ar dir ysgol y tu allan i oriau ysgol, tra bod gwahardd mewn digwyddiadau ysgol oddi ar dir yr ysgol ychydig yn llai cyffredin (92%) (gweler Ffigur 27).
- Roedd gan bron i dri chwarter (73%) o ysgolion **bolisi gwahardd sy'n cynnwys sigaréts electronig, h.y. e-sigaréts neu fêps**, tra bod 22% yn y broses o ddatblygu polisi o'r fath.
- O'r ysgolion hynny oedd â pholisi a oedd yn cynnwys defnyddio e-sigaréts, roedd mwyafrif helaeth **yn gwahardd myfyrwyr rhag defnyddio e-sigaréts ar dir yr ysgol yn ystod oriau ysgol (99%) a thu allan i oriau ysgol (93%)**. Roedd mwyafrif helaeth yr ysgolion â pholisi o'r fath hefyd yn gwahardd staff rhag gwneud hynny yn ystod oriau ysgol (96%) a thu allan i oriau ysgol (89%) (gweler Ffigur 28).

Cwestiwn (heb ei siartio)	Sylfaen (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu ymatebion heb eu datgan)
C46 A yw eich addysg am dybaco yn cynnwys addysgu myfyrwyr am:	Ymateb pob ysgol: Tybaco anghyfreithlon (178); E-sigaréts (186)
C47 A yw eich ysgol yn cynnig unrhyw fath o gymorth rhoi'r gorau i dybaco i fyfyrwyr?	Ymateb pob ysgol (183)
C48 A oes gan eich ysgol lwybr penodol neu broses atgyfeirio ar waith i ddarparu arbenigedd ac adnoddau i fyfyrwyr sydd:	Ymateb pob ysgol: Camddefnyddio cyffuriau (187); Camddefnyddio alcohol (185)
C50 A yw eich ysgol yn arddangos arwyddion wrth neu ger y brif fynedfa/fynedfeydd i dir yr ysgol yn nodi bod tiroedd yr ysgol yn ddi-fwg?	Ymateb pob ysgol a nododd fod tir eu hysgol yn ddi-fwg (179)
C51 A oes gan eich ysgol bolisi sy'n cynnwys y defnydd o sigaréts electronig, a elwir hefyd yn e-sigaréts neu fêps?	Ymateb pob ysgol (184)


Ffig. 27 Gwaharddiadau polisi ar ddefnyddio tybaco



C49 A yw polisi ysmegu a defnyddio tybaco eich ysgol yn gwahardd defnyddio tybaco yn y lleoliadau canlynol?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol sydd â pholisi sy'n cynnwys ysmegu a defnyddio tybaco, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod': Tir yr ysgol y tu allan i oriau ysgol (176); Digwyddiadau ysgol oddi ar dir yr ysgol (168); Cerbydau preifat ar dir yr ysgol (162)

Ffig. 28 Gwaharddiadau polisi ar ddefnyddio e-sigaréts



C52 A yw polisi eich ysgol yn gwahardd defnyddio e-sigaréts yn y lleoliadau canlynol gan fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol sydd â pholisi gan gynnwys defnyddio e-sigaréts, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (135).


2.7 Iechyd meddwl a lles

Casgliadau cryno

- Roedd gan ddwy ran o dair o ysgolion **bolisiau ysgrifenedig ar iechyd meddwl a lles myfyrwyr** (66%), tra bod gan dros hanner bolisiau ysgrifenedig ar hunan-niwed (56%), tra bod gan lai o ysgolion bolisiau ar atal hunanladdiad a/neu gofal ar ôl hunanladdiad (46%) (gweler Ffigur 29).
- Dywedodd pob ysgol fod eu holl staff wedi **derbyn hyfforddiant mewn adnabod ac ymateb i effaith trawma plentyndod**. Dywedodd bron i hanner yr ysgolion (49%) fod eu holl staff wedi derbyn hwn a dywedodd chwarter arall (26%) fod y rhan fwyaf o'r staff wedi'i dderbyn.
- Nodwyd **mannau anogaeth penodol i fyfyrwyr** ym mhob ysgol, ond yn y lleiafrif o ysgolion (18%), roedd y lle ar gael i rai myfyrwyr yn unig.
- Dywedodd bron pob ysgol (99%) fod eu **staff yn gallu defnyddio gwasanaeth cwnsela** (gweler Ffigur 30).
- Roedd mwy na dwy ran o dair o ysgolion (70%) yn darparu **ymyriadau lles ar gyfer staff**.
- Roedd bron pob ysgol (92%) yn cyflwyno **ymyriadau lles i fyfyrwyr** (gweler Ffigur 31).
- Pan ofynnwyd iddynt raddio o 1-5 sut **mae myfyrwyr yn parhau i gael eu heffeithio gan effaith y pandemig COVID-19** mewn amrywiol ffyrdd (1 heb ei effeithio o gwbl, 5 yn cael ei effeithio i raddau helaeth) yr effeithiau mwyaf cyffredin oedd gostyngiad mewn presenoldeb (4.31) a llai o gymhelliant ac ymgysylltiad â'r ysgol (4.17), ond mwy o ymddygiad aflonyddgar (4.15) a mwy o frwydrau gyda gwaith ysgol (4.02) (gweler Ffigur 32).

Cwestiwn (heb ei siartio)	Sylfaen (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu ymatebion heb eu datgan)
C54 Faint o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn adnabod ac ymateb i effaith trawma plentyndod, e.e. cam-drin, rhieni yn camdefnyddio sylweddau, carcharu rhieni?	Ymateb pob ysgol (188)
C55 A oes gan eich ysgol ofod anogaeth pwrpasol ar gyfer myfyrwyr?	Ymateb pob ysgol (191)
C57 A yw eich ysgol yn cyflwyno unrhyw ymyriadau iechyd meddwl a lles ar gyfer staff?	Ymateb pob ysgol (182)


Ffig. 29 Polisiâu iechyd meddwl a lles ysgrifenedig



C53 A yw eich ysgol wedi ysgrifennu polisiâu sy'n cynnwys y canlynol?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod'. Iechyd meddwl a lles myfyrwyr (187), Hunan-niwed (181), Atal hunanladdiad a/neu gofal ôl-hunanladdiad (178).


Ffig. 30 Mynediad staff at gymorth iechyd meddwl a lles emosiynol arbenigol



C56 A yw'r ysgol yn cefnogi staff i gael cymorth iechyd meddwl a lles emosiynol arbenigol (h.y. gwasanaeth cwnsela)? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu ymatebion heb eu datgan (193).


Ffig 31. Ymyriadau iechyd meddwl a lles i fyfyrwyr



C58 A yw eich ysgol yn cyflwyno unrhyw ymyriadau iechyd meddwl a lles i fyfyrwyr (e.e. THRIVE, Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL), ymwybyddiaeth ofalgar)?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu ymatebion heb eu datgan (182).

Ffig. 32 Effeithiau'r pandemig ar fyfyrwyr



C59 I ba raddau ydych chi'n ymwybodol bod myfyrwyr yn eich ysgol yn parhau i gael eu heffeithio gan effeithiau pandemig COVID-19 yn y ffyrdd canlynol?

Sylfaen: Llai o bresenoldeb yn yr ysgol (191), Llai o gymhelliant ac ymgysylltiad â'r ysgol (191), Mwy o ymddygiad aflonyddgar (190), Mwy o frwydrau gyda gwaith ysgol (192), Llai o les meddwl (191), Oedi datblygiad emosiynol (190), Cynnydd problemau iechyd meddwl lle mae angen ymyriadau meddygol (191), Mwy o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol (191).


2.8 Rhyw a pherthnasoedd

Casgliadau cryno

- Roedd gan ddwy ran o dair o ysgolion (66%) **wasanaeth 'galw heibio' ar y safle yn benodol ar gyfer cyngor iechyd rhywiol**. O'r ysgolion a oedd yn cynnig y gwasanaeth 'galw heibio' hwn, roedd y mwyafrif (83%) defnyddio nyrs ysgol y GIG i'w ddarparu.
- Roedd gan fwy na dwy ran o bump (44%) o ysgolion **ddarpariaeth o gondomau am ddim ar y safle i fyfyrwyr**.
- Roedd gan dros draean o ysgolion **bolisi ysgrifenedig a oedd yn cynnwys trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig, a thrais rhywiol** (VAWDASV) ar gyfer staff (37%) a myfyrwyr (37%) tra bod tua chwarter yn y broses o **ddatblygu polisi ysgrifenedig a oedd yn cynnwys trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol** (VAWDASV) ar gyfer staff (23%) a myfyrwyr (25%) (gweler Ffigur 33).
- Roedd bron i ddwy ran o dair o ysgolion (60%) yn datgan bod **ganddynt addysg staff ar gyfer VAWDASV**. Roedd camau cyffredin eraill a gymerwyd gan ysgolion i fynd i'r afael â'r mater yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol (53%) ac addysg myfyrwyr ar VAWDASV (50%) (gweler Ffigur 34).
- Yn y rhan fwyaf o ysgolion, roedd rhai neu bob un o'r staff yn cael **hyfforddiant ar faterion datgelu myfyrwyr (94%) a/neu yn cydnabod (92%) ac yn ymateb (91%) i arwyddion o VAWDASV** (gweler Ffigur 35).

Cwestiwn (heb ei siartio)	Sylfaen (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu ymatebion heb eu datgan)
C60 A oes gan eich ysgol wasanaeth 'galw heibio' ar y safle sy'n cynnwys cymorth ar gyfer y canlynol?	Ymateb pob ysgol: Cyngor iechyd rhywiol (187), Cyngor ar berthnasoedd (184), disgyblion LHDTC+ (185)
C61 Pwy sy'n darparu'r gwasanaeth 'galw heibio' ar y safle ar gyfer cyngor iechyd rhywiol?	Ymateb pob ysgol (125)
C62 A oes gan eich ysgol ddarpariaeth o gondomau am ddim ar y safle i fyfyrwyr ysgol (gan gynnwys dosbarthu gan ddefnyddio cynllun Cerdyn C)?	Ymateb pob ysgol (180)


Ffig. 33 Ysgolion â pholisïau ysgrifenedig sy'n cynnwys VAWDASV



C63 A oes gan eich ysgol bolisi ysgrifenedig sy'n cynnwys Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod'. Polisi yn ymwneud â staff (169), polisi yn ymwneud â myfyrwyr (167).


Ffig. 34 Camau a gymerwyd i fynd i'r afael â VAWDASV yn 2021/22 a 2022/23



C64 A yw eich ysgol wedi defnyddio unrhyw un o'r canlynol i fynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn y ddwy flynedd academiaidd ddiwethaf (2021/22 a 2022/23)?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (193).

Ffig. 35 Hyfforddiant staff ar VAWDASV mewn 2021/22 a 2022/23



C65 A gafodd staff yn eich ysgol unrhyw hyfforddiant ar y materion canlynol yn ystod y ddwy flynedd academiaidd flaenorol (2021/22 a 2022/23)?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod'. Sut i ymateb i ddatgeliad myfyriwr (185), sut i ymateb i arwyddion o VAWDASV (183), adnabod arwyddion VAWDASV (184).

2.9 Darpariaeth gwasanaeth iechyd


Casgliadau cryno

- Dywedodd y rhan fwyaf o ysgolion **mai dim ond nyrs GIG** oedd ganddynt (83%), tra bod wyth y cant o ysgolion yn cyflogi eu nyrs eu hunain, a naw y cant o ysgolion yn dweud nad oedd ganddynt nyrs (gweler Ffigur 36).
- Mewn ysgolion oedd â darpariaeth nyrsio, **roedd nyrs** gan amlaf **ar y safle** 1-2 gwaith yr wythnos (50% o ysgolion). Dim ond saith y cant o ysgolion oedd â nyrs ar y safle ac ar gael i fyfyrwyr bob dydd (gweler Ffigur 37).
- Y dasg a gyflawnwyd amlaf gan nyrsys ysgol y GIG mewn ysgolion oedd â darpariaeth nyrsio'r GIG oedd rhoi **cyngor a chymorth un-i-un i fyfyrwyr** ar sail ad hoc. (81%) (gweler Ffigur 38).
- Dywedodd y mwyafrif o ysgolion fod **myfyrwyr yn cael mynediad at gynhyrchion mislif am ddim** o'r swyddfa les neu'r nyrs (72%), y dderbynfa (65%) a / neu athro (61%) (gweler Ffigur 39).
- Roedd ychydig dros bedair o bob deg ysgol (41%) yn teimlo y **byddai mwy o gyllid yn helpu i ddarparu cynhyrchion misglwyf am ddim** i'w myfyrwyr. Crybwyllwyd mwy o gapasiti staff gan bron i draean (31%); fodd bynnag roedd yr un faint (31%) teimlo nad oedd angen rhagor o help (gweler Ffigur 40).
- Roedd y rhan fwyaf o ysgolion (93%) yn cynnig **gwasanaeth cwnsela myfyrwyr yn yr ysgol** o leiaf unwaith yr wythnos (gweler Ffigur 41).
- Dywedodd naw o bob deg ysgol (90%) **y gallai myfyrwyr fynychu gwasanaethau cwnsela lleol, cyfrinachol yn ystod oriau ysgol**.
- Roedd y mwyafrif o ysgolion (80%) wedi cael **person penodol o fewn eu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) lleol y gallent gysylltu ag ef i gael cymorth a chefnogaeth**.
- Roedd mwy na hanner (52%) o ysgolion **mewn cysylltiad â'u CAMHS lleol** yn wythnosol, 19% bob pythefnos, a 19% bob mis (gweler Ffigur 42).
- Roedd y mwyafrif o ysgolion (78%) mewn cysylltiad â'u CAMHS lleol **yn cael cyngor dros y ffôn**. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd hefyd gyda CAMHS mewn bron i hanner yr ysgolion (47%) (gweler Ffigur 43).
- O'r ysgolion a allai wneud atgyfeiriadau i CAMHS, **mae bron i hanner yr ysgolion wedi gwneud 11 neu fwy o atgyfeiriadau yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf**(44%) (gweler Ffigur 44).
- O'r ysgolion a oedd wedi gwneud atgyfeiriadau i CAMHS, **roedd gan y mwyafrif o leiaf rai o'u myfyrwyr fynediad at driniaeth** (88%), ond 9% yn unig a ddywedodd fod yr holl fyfyrwyr a gyfeiriwyd ganddynt wedi cael mynediad at driniaeth.

- Ychydig dros chwarter yr ysgolion (26%) ddywedodd eu bod yn teimlo eu bod **yn cael eu cefnogi gan eu CAMHS lleol**, tra dywedodd dros dri o bob deg (31%) nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi (gweler Ffigur 45).
- At ei gilydd, roedd gan tua wyth o bob deg(84%) o **ysgolion seicolegydd addysg yn yr ysgol** ar gael yn yr ysgol, ond mewn 71% o ysgolion dim ond ar gais oedd y seicolegydd ar gael (gweler Ffigur 46).

Cwestiwn (heb ei siartio)	Sylfaen (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu ymatebion heb eu datgan)
C72 A all myfyrwyr fynychu gwasanaethau cwnsela lleol, cyfrinachol eraill yn ystod oriau ysgol?	Ymateb pob ysgol (184)
C73 A oes gennych chi berson penodol yn eich Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) lleol y gallwch chi gysylltu ag ef i gael cymorth a chefnogaeth?	Ymateb pob ysgol (181)
C77 Pan wnaethoch atgyfeiriadau, a gafodd y myfyriwr(myfyrwyr) fynediad at driniaeth?	Pob ysgol a wnaeth o leiaf un atgyfeiriad i'w CAMHS lleol yn ystod y ddwy flynedd academaidd ddiwethaf (99)


Ffig. 36 Math o nyrs ysgol



C66 A oes gan eich ysgol Nyrs Ysgol?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (193).


Ffig. 37 Nyrs ysgol sydd ar gael ar y safle i fyfyrwyr



C67 Pa mor aml y mae gwasanaeth nyrs ar y safle ac ar gael i fyfyrwyr?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol sydd â nyrs ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (172).


Ffig. 38 Tasgau a gyflawnir gan nyrsys ysgol y GIG



C68 Pa un o'r canlynol y mae nyrs ysgol y GIG yn ei wneud yn eich ysgol?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol sydd â nyrs ysgol y GIG, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (160).


Ffig. 39 Sut mae myfyrwyr yn cyrchu cynhyrchion misglwyf rhad ac am ddim



C69 Sut mae myfyrwyr yn cyrchu cynhyrchion misglwyf rhad ac am ddim yn eich ysgol?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol sydd â nyrs ysgol y GIG, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (193).


Ffig. 40 Beth fyddai'n helpu i ddarparu cynhyrchion misglwyf am ddim



C70 Beth fyddai'n eich helpu i ddarparu cynhyrchion misglwyf am ddim i'ch myfyrwyr?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol sydd â nyrs ysgol y GIG, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (193).


Ffig. 41 Argaeledd gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion



C71 Pa mor aml y mae gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol ar gael i fyfyrwyr?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (189).


Ffig. 42 Amllder cyfathrebu rhwng ysgolion a CAMHS lleol



C74 Yn y ddwy flynedd diwethaf, yn fras pa mor aml y mae eich ysgol wedi bod yn cyfathrebu â'ch CAMHS lleol?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (181).


Ffig. 43 Cyfathrebu â CAMHS



C75 Sut mae'r cyfathrebu hwn yn cael ei gyflawni?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol sydd wedi bod yn cyfathrebu â'u CAMHS lleol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (179).


Ffig. 44 Atgyfeiriadau i CAMHS yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf



C76 Faint o atgyfeiriadau i'ch CAMHS lleol i'w hasesu ydych chi wedi'u gwneud yn ystod y ddwy flynedd academaidd ddiwethaf (2021/22 a 2022/23) ar gyfer myfyrwyr unigol?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod'. 2021/22 (154), 2022/23 (159).


Ffig. 45 I ba raddau y mae ysgolion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan CAMHS



C78 I ba raddau ydych chi'n teimlo eich bod yn cael eich cefnogi gan eich CAMHS lleol?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (183).

Ffig. 46 Argaeledd seicolegydd addysg yn yr ysgol



C79 A oes seicolegydd addysg ar gael i fyfyrwyr yn yr ysgol?

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (185).


2.10 Atodiad 2023: Ymagwedd Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddylol

Casgliadau cryno

- **Mae'r mwyafrif o ysgolion wedi dechrau cyflwyno'r Fframwaith ar Ymgorffori Dull Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddylol (85)** (gweler Ffigur 47).
- O'r rhai sydd wedi dechrau cyflwyno'r Fframwaith ar gyfer Ymgorffori Dull Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddylol, **roedd bron i ddwy draean wedi cael eu cefnogi yn y broses gan Gydlynnydd Ysgolion Iach WNHWPS (61%)** a thros hanner (53%) gan Arweinydd Gweithredu WSA Iechyd Cyhoeddus Cymru (gweler Ffigur 48).
- **Y grŵp a oedd fwyaf tebygol o fod wedi bod yn rhan o'r gwaith ar Fframwaith ar Ymgorffori Dull Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddylol oedd yr uwch dîm rheoli / arwain** – gyda mwy na dwy ran o dair (67%) wedi cymryd rhan fawr (gweler Ffigur 49).
- Mae'r mwyafrif o'r **rheiny nad ydynt eto wedi dechrau cyflwyno'r Fframwaith ar Ymgorffori Dull Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddylol** yn disgwyl dechrau gweithredu yn y flwyddyn academaidd nesaf (95%) (gweler Ffigur 50). Mae'r un gyfran o'r ysgolion hyn **hefyd yn bwriadu cynnal hunanwerthusiad** yn y flwyddyn nesaf (95%) ac mae bron i ddwy ran o dair o'r rheiny (62%) **yn disgwyl gweithio gyda Chydlynnydd Ysgolion Iach WNHWPS** ar hyn (gweler Ffigurau 51 a 52). Fodd bynnag, nodwch y maint sylfaen isel ar gyfer y cwestiynau hyn, dylid bod yn ofalus wrth drin canrannau.

Cwestiwn (heb ei siartio)	Sylfaen (ac eithrio 'Ddim yn gwybod' neu ymatebion heb eu datgan)
C82 Pa gamau a nodwyd gennych o'r hunanwerthusiad hwn?	Pob ysgol sydd wedi dechrau cyflwyno'r Fframwaith ar Ymgorffori Dull Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddylol (133)
C85 Pwy fydd yn arwain ar hyn? (nodwch y sefydliad/person)	Pob ysgol sy'n disgwyl dechrau gweithredu'r Fframwaith yn y flwyddyn academaidd nesaf (20). Rhybudd: sylfaen maint isel
C88 Yn eich barn chi, beth fydd canlyniadau'r Dull Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddylol ar gyfer:	Ymateb pob ysgol: Dysgwyr (139), Staff (139), Y gymuned ehangach (118)
C89 Yn eich barn chi, beth yw'r heriau posibl o ran darparu Dull Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddylol yn eich ysgol? (e.e. costau, amser staff, hyfforddiant staff, cymorth allanol sydd ar gael)	Ymateb pob ysgol (164)


Ffig. 47 Cyflwyno'r Fframwaith ar Ymgorffori Dull Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddyliol



C80 A yw eich ysgol wedi dechrau cyflwyno'r Fframwaith ar Ymgorffori Dull Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddyliol? Nodwch y cam sydd agosaf at eich sefyllfa bresennol

Sylfaen: Ymateb pob ysgol, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (193).


Ffig. 48 Cefnogaeth i gyflwyno'r Fframwaith ar Ymgorffori Dull Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddyliol



C81 A ydych wedi cael eich cefnogi yn y broses hon gan unrhyw un o'r canlynol?

Sylfaen: Pob ysgol sydd wedi dechrau cyflwyno'r Fframwaith, heb gynnwys ymatebion 'Ddim yn gwybod' (193).


Ffig. 49 Cymryd rhan mewn cyflwyno'r Fframwaith ar Ymgorffori Dull Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddyliol



C83 Yn yr ysgol, i ba raddau y mae'r grwpiau canlynol wedi bod yn rhan o'ch gwaith ar y Fframwaith ar Ymgorffori Dull Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddyliol?

Sylfaen: Pob ysgol sydd wedi dechrau cyflwyno'r Fframwaith, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod': Uwch reolwyr / tîm arwain (159), staff addysgu eraill (159), staff bugeiliol a chymorth (159), myfyrwyr (157), teuluoedd (155), y gymuned ehangach (154).

Ffig. 50 Pryd y disgwylir i weithrediad y Fframwaith ddechrau




C84 A ydych yn disgwyl dechrau gweithredu'r Fframwaith yn y flwyddyn academaidd nesaf?

Sylfaen: Pob ysgol sydd heb ddechrau cyflwyno'r Fframwaith, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod' (21).

Rhybudd: sylfaen maint isel

Ffig. 51 Bwriad i gynnal hunanwerthusiad yn y flwyddyn academiaidd nesaf




C86 A ydych yn disgwyl cynnal hunanwerthusiad yn y flwyddyn academiaidd nesaf?

Sylfaen: Pob ysgol sydd heb ddechrau cyflwyno'r Fframwaith, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod (21).

Rhybudd: sylfaen maint isel

Ffig. 52 Cyfraniad eraill wrth gynnal hunanwerthusiad



C87 Gyda phwy ydych chi'n bwriadu gweithio ar hyn (os o gwbl)?

Sylfaen: Pob ysgol sydd heb ddechrau cyflwyno'r Fframwaith, ac eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod (21).

Rhybudd: sylfaen maint isel

3. Casglu Data Holiadur Amgylchedd yr Ysgol mewn Ysgolion Uwchradd yn y Dyfodol

Mae llenwi Holiadur Amgylchedd yr Ysgol yn cynnig manteision sylweddol i ysgolion. Trwy ddefnyddio data'r Holiadur, gall ysgolion asesu iechyd a lles eu hysgolion yn effeithiol yn gysylltiedig â'u polisiau a'u harferion eu hunain. Mae'r broses hunanwerthuso hon yn caniatáu am fonitro gwelliannau a chymharu data ysgol benodol â meincnodau cenedlaethol. Yn ogystal, mae data'r Holiadur yn adnodd gwerthfawr yn ystod arolygiadau ysgol Estyn.

Ar raddfa ehangach, mae'r data'n ategu polisiau cenedlaethol, gan gynnwys y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Lles Emosiynol a Meddyliol, ac mae'n llywio mentrau fel Ysgolion Bro a Hawliau Plant. At hynny, mae'r cydweithredu rhwng y Rhwydwaith, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sicrhau bod casglu data yn cyd-fynd ag anghenion polisi presennol.

Yn y pen draw, nid yn unig y mae data'r Holiadur yn hwyluso mesur cynnydd ar lefel ysgol, mae hefyd yn helpu i fonitro sut caiff polisi ei gweithredu ac amlygu arferion arloesol a all wella deilliannau iechyd a lles myfyrwyr ar draws Cymru.

Bydd cylch casglu data nesaf y **Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion** yn dechrau mewn **ysgolion uwchradd** ym mis **Medi 2025**.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gasglu data, e-bostiwch dîm y Rhwydwaith ym Mhrifysgol Caerdydd (SHRN@cardiff.ac.uk).



Y RHWYDWAITH
YMCHWIL IECHYD
MEWN YSGOLION

THE SCHOOL
HEALTH RESEARCH
NETWORK

**Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd
mewn Ysgolion (SHRN)**

SBARC
Heol Maendy
Caerdydd
CF24 4HQ



shrn.org.uk



SHRN@cardiff.ac.uk



[@SHRNWales](https://twitter.com/SHRNWales)



[School Health Research Network](https://www.youtube.com/School Health Research Network)

Cedwir pob hawl.

I amddiffyn cyfrinachedd, modelau sy'n ymddangos
ym mhob ffotograff.

Cyhoeddwyd gyntaf gan y Rhwydwaith © 2024.